Plannu coed afalau

(byw bywyd gwahanol / rhannu)

Ffermwr cyffredin oedd John Chapman. Bob blwyddyn, fel pob ffermwr, byddai'n aredig, yn plannu ac yn cynaeafu. Un flwyddyn pan oedd yn hamddena ar ôl diwrnod caled o waith cafodd syniad newydd. Wrthi'n bwyta afal yr oedd John pan ddisgynnodd un o'r hadau duon ar ei drowsus. Cododd yr hedyn du ac edrych arno mewn syndod. Doedd o erioed wedi sylwi ar yr hadau o'r blaen dim ond eu chwythu o'i geg. "Beth am i mi blannu'r hadau? Efallai nad oes neb yn y byd wedi meddwl am hyn o'r blaen," meddai wrtho'i hun. A dyna'n union a wnaeth.

Ymhen rhai wythnosau roedd pump o goed afalau bychain wedi dechrau tyfu. Dechreuodd feddwl o ddifri. "Mae America yn gyfandir mawr iawn, iawn, ond pam oedd cyn lleied o goed afalau yn tyfu yno a hwythau mor hawdd i'w tyfu?"

Penderfynodd Chapman werthu ei fferm a dechreuodd deithio ar hyd a lled y wlad. Galwai ar ei dro yn y ffermydd, a'i gwestiwn bob tro oedd, "Ga i ychydig o afalau gennych er mwyn i mi gael yr hadau?" Byddai'r ffermwyr yn fwy na pharod i roi ychydig o afalau iddo. Yna byddai'n plannu'r hadau.

Ar y cychwyn doedd pobl ddim yn deall beth oedd John Chapman yn ei wneud. Byddai'r ffermwyr yn cael hwyl fawr o'i weld wrthi'n plannu'r hadau ymhob twll a chornel. Gofynnodd un o'r ffermwyr iddo, "Pam wyt ti'n plannu'r hadau yma John?" Cafodd ateb ar ei ben. "Yn y gwanwyn bydd y coed yn llawn blodau prydferth ac yna yn yr hydref adeg cynaeafu bydd y coed yn llawn o ffrwythau. Bydd digonedd o afalau i bawb eu bwyta."

Fel roedd y misoedd a'r blynyddoedd yn mynd heibio roedd John wedi mynd i edrych yn rhyfedd. Pan fyddai ei ddillad yn garpiau byddai'n gwisgo hen sach goffi drosto a phan gollodd ei gap defnyddiodd un o'i botiau coginio fel het. Pan oedd ei esgidiau wedi mynd yn dyllau taflodd nhw i ffwrdd a cherddai o gwmpas yn droednoeth, hyd yn oed yng nghanol gaeaf. Ond, yn araf, daeth pobl i dderbyn John Chapman fel yr oedd. Doedd y ffermwyr ddim yn chwerthin am ei ben. Roedden nhw'n fwy na balch i'w helpu.

"Fuasech chi'n hoffi aros efo ni heno?" gofynnodd un teulu iddo, "cewch swper a gwely yn y fargen." Cyn mynd i'r gwely byddai John yn sôn am ei anturiaethau yn plannu'r hadau o

gwmpas y wlad. Byddai'r plant wrth eu boddau yn gwrando ar straeon John. Dyma un stori yr oedd wrth ei fodd yn ei hadrodd. "...a dyma fi'n cerdded at lan yr afon a wyddoch chi beth oedd yno? Blaidd yn sownd mewn trap. Gollyngais y creadur yn rhydd a rhedodd nerth ei draed i'r goedwig. Ymhen rhai dyddiau wedyn pan oeddwn i'n plannu coed yn nhir neb, dyma griw o Indiaid yn dod i'm cyfarfod. Gwaeddodd y pennaeth, Daliwch o, a dyna wnaethon nhw. Roedden nhw'n barod i ymosod arna i pan ddaeth sŵn anifail o gwr y goedwig. A wyddech chi beth ddaeth allan o'r goedwig? Y blaidd wnes i ei ollwng yn rhydd.

"Dangosodd ei ddannedd miniog i'r Indiaid ac i ffwrdd â nhw. A dyma'r blaidd yn dod ata i a dechrau llyfu fy nwylo. Bu efo mi am ddyddiau yn fy nilyn i bob man. Mi ddaethon ni'n ffrindiau mawr..."

Am ddeugain mlynedd bu John yn crwydro'r cyfandir yn plannu coed afalau. Maen nhw'n dweud, pan fu John farw, fod yna goeden afalau wedi tyfu uwchben ei fedd. Efallai'n wir!

Adnod: "Yr oedd gan ddyn ffigysbren wedi ei blannu yn ei winllan. Daeth i chwilio am ffrwyth arno, ac ni chafodd ddim." Luc 13:6

Gweddi: Gawn ni feddwl heddiw, O Dduw, am bobl ar hyd yr oesoedd sydd wedi gwneud pethau anghyffredin. Amen.

Trafod:

- Fedrwch chi feddwl am bobl eraill, tebyg i John Chapman, sydd wedi gwneud pethau anghyffredin?
- Tybed ydi'r stori roedd John yn ei hadrodd yn perthyn i gategori "celwydd golau"?